

## Dathlu yn y Tabernacl, Caerdydd

Dydd Sadwrn, 18 Medi 2002, cynhaliwyd oedfa sefydlu'r Parchg Ddr Rosa Hunt yn weinidog rhan amser ar Eglwys y Tabernacl, Caerdydd.

Gwraig o ynys Malta yw Rosa, a derbyniodd ei haddysg uwchradd a phrifysgol yn Lloegr. Bu'n athrawes ar ôl geni ei phedwar plentyn, ac wedi cyfnod o fyw yn Ffrainc, symudodd y teulu i Bentre'r Eglwys, ger Pontypridd, pan dderbyniodd Francis, ei phriod, swydd yng Ngholeg Prifysgol De Cymru ym Mhontypridd.

Aethy ddau ati ar unwaith i ddysgu'r iaith Gymraeg, o barch i'r Cymry, ac ymdeimlai Rosa fod Duw yn ei galw i'r weinidogeth. Cofrestrodd fel myfyriwr yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, a derbyn swydd fel gweinidog cynorthwyol ym Methel, Penyrheol, Caerffili. Ymhen y rhawg, derbyniodd wahoddiad i fod yn weinidog yn Salem, Llanilltud Faerdref, gan arwain y ddiadell ddwyieithog mewn nifer o brosiectau newydd mewn modd mentrus a llwyddiannus.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, ymgeisiodd hi gyda'r Parchg Ddr Ed Kaneen, un o ddarlithwyr Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, am swydd y prifathro. Roedd y ddau yn gweld ei gilydd fel cyd-brifathrawon, ac mae'r trefniant hwn wedi profi'n llwyddiant mawr. Roedd gwaith Rosa yn Salem yn waith rhan-amser erbyn hynny, ac addasodd yr eglwys yno i fod yn gyd-weithwyr â hi yn y weinidogaeth.

Ar ôl i'r Parchg Denzil John ddweud ei fod am ymryddhau o ofalaeth eglwys, sefydlwyd pwyllgor bugeiliol i geisio swydd-ddisgrifiad cyfoes, a bu hyn yn destun gweddio dwys. Profodd yr eglwys gyffro pan ddaeth Rosa i bregethu mewn oedfa i gofnodi adeiladu'r capel presennol 150 o flynyddoedd yn ôl, ac arweiniodd hyn y diaconiaid i wahodd Rosa am sgwrs benodol i drafod gweinidogaeth yr eglwys. Roedd yr eglwys a'r Parchg Ddr Rosa Hunt yn teimlo fod Duw wedi eu galw ynghyd, a chadarnhawyd hynny yn yr oedfa sefydlu ganol mis Medi.

Daeth cynulleidfa anrhydeddus ynghyd, yn cynnwys aelodau o Salem a'r Tabernacl, yng nghwmni aelodau eglwysi eraill Caerdydd, a chynrychiolaeth o'r teulu Bedyddiedig yng Nghymru, gan gynnwys Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Canwyd emynau a luniwyd gan rai o gyn-weinidogion y Tabernacl, ac un newydd o waith Rosa ei hun. Y cyn-weinidog a groesawodd bawb i'r oedfa, ac ef a offrymodd y weddi agoriadol. Ei wyres,



Hawys Jones, a gyflwynodd ddarlenniad Beiblaidd, a'r Parchg Rob Nicholls, cyn-aelod o'r Tabernacl a gweinidog Eglwys Unedig Gymraeg Canol Llundain, a offrymodd weddi. Roedd y sefydlu dan arweiniad y Parchg Simeon Baker, a chafwyd datganiad cerddorol gan blant yr ysgol Sul o waith Mair Long, aelod o'r eglwys. Dau aelod arall, sef Euros Rhys Evans a Lisa Tiplady, a luniodd ddatganiad cerddorol newydd i'w ganu gan gôr yr eglwys.

Estynnwyd cyfarchion ar ran y coleg gan y Parchg Ddr Ed Kaneen, gan Paula Hughes ar ran Eglwys Salem a Rhys ab Owen ar ran y Tabernacl. Y Parchg Judith Morris, ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Cymru, draddododd y bregeth.

Bu'n oedfa fendithiol iawn, a mwynhawyd lluniaeth yn y festri ar y diwedd. Pwy fyddai wedi meddwl mai gwraig o Malta fyddai unfed gweinidog ar ddeg yr eglwys hon yng nghanol dinas Caerdydd? Dymunwn fendith Duw ar y weinidogaeth ac ar genhadaeth yr eglwys i'r dyfodol.





## Cyflwyno 20 o fedalau Gee yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn

Am y tro cyntaf ers tair blynedd bu'n bosib trefnu digwyddiad torfol ddechrau Medi eleni i gyflwyno ugain o fedalau Gee yn y gogledd. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r medalau wedi cael eu cyflwyno'n lleol, mewn digwyddiadau llai, un ai yng nghapel y sawl sy'n derbyn y fedal neu ar yr aelwyd. Fodd bynnag, bu'n braf gweld cynulleidfa luosog yn crynhoi yn ddiweddar yn Llanuwchllyn, a hynny i gyflwyno medalau i bobl ar draws y gogledd.

Croesawyd pawb i'r oedfa gan y Parch. Aled Davies, cyn trosglwyddo'r awenau i weinidogyreglwys, y Parch. Carwyn Siddall. Estynnodd groeso i Lanuwchllyn i bawb oedd yn bresennol, gan esbonio ychydig am hanes pwysig y capel, a'i gysylltiad â Michael D. Jones, sylfaenydd cymuned y Wladfa. Aeth ymlaen i sôn am werth yr ysgol Sul yn y cylch, cyn iddo ein harwain yn y rhannau arweiniol. Trosglwyddwyd gweddill y cyfarfod i ofal Aled Davies, a aeth ati, gyda chymorth Isoline Greenhalgh a Nerys Siddall, i gyflwyno'r medalau.

Yn y llun, gwelir yr aelodau hynny a dderbyniodd fedal eleni, sef: Aledwen Myra Davies, Capel Saron, Dinbych; Gwilym Davies, Ysgol Sul y Parc, y Bala; Olwen Davies, Ysgol Sul y Parc, y Bala; Heulwen Mai Edwards, Capel y Groes, Dinbych; Lloyd Edwards, Capel y Groes, Dinbych; Gwerfil Alwena Evans, Ysgol Sul Peniel, Llanuwchllyn; Nesta Elizabeth Evans, Capel Saron, Dinbych; Jean Elizabeth Hughes, Capel Lôn y Felin, Llangefni; Awel Jones, Ysgol Sul Peniel, Llanuwchllyn; Gillian Jones, Capel Lôn y Felin, Llangefni; John Gwynfor Jones, Capel y Groes, Dinbych; John Trefor Jones, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Meinir Hedd Jones, Capel y Groes, Dinbych; Wendy Jones, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Beryl Morris, Capel Cefn Berain, Dinbych; Gwyneth Parry, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Mary



Y Parch. Carwyn Siddall, Mrs Nerys Siddall, Dr Isoline Greenhalgh a'r Parch. Aled Davies



Mwynhau'r gwmniaeth yng nghanolfan y pentref

Annwen Thomas, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Helen Mary Williams, Capel Lôn y Felin, Llangefni; Margaret Helen Williams, Capel Lôn y Felin, Llangefni.

Aeth Aled ymlaen i sôn am y ddwy fedal arall fyddai'n cael eu cyflwyno eleni hefyd, sef medalau er anrhydedd gan Gyngor yr Ysgolion Sul. Braint i'r Cyngor eleni oedd cael cyflwyno medal i Dr Isoline Greenhalgh ar ran y teulu Gee. Mae Isoline wedi bod yn rhan o'r cyflwyno ers degawdau, ac wedi cyfrannu'n helaeth drwy brynu'r medalau am gyfnod o 40 flynedd. A hithau bellach yn ei 90au ac wedi gwneud buddsoddiad pellach eleni i sicrhau cyflenwad o fedalau newydd am y degawd nesaf, dymuniad y Cyngor oedd cyflwyno medal er anrhydedd

i Isoline ei hun. Mae ein dyled yn fawr iddi am sicrhau bod y medalau hyn yn cael eu cyflwyno'n flynyddol.

Bydd yr ail fedal er anrhydedd yn cael ei chyflwyno i'r Parch. Tom Defis, Cymorth Cristnogol, a hynny yng Nghaerfyrddin o fewn y mis – cawn fwy o hanes hynny yn dilyn y cyfarfod yn dilyn y cyflwyniad. Estynnodd yr eglwys wahoddiad cynnes iawn i bawb i fynd i'r ganolfan yn y pentref, lle roedd 'na wledd yn ein disgwyl.

Cofiwch fod modd enwebu eraill i dderbyn medalau ar gyfer 2023 unrhyw adeg hyd at 30 Mehefin 2023. Cynhelir y cyfarfodydd gwobrwyo eto'r flwyddyn nesaf, ym mis Medi 2023. Mae'r canllawiau a ffurflen enwebu ar gael o wefan [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com)



BBC radio cymru

**Caniadaeth y Cysegr Sul, 9 Hydref,**

**am 7:30yb a 4:30yp**

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Ebeneser, Castellnewydd Emlyn

**Sul, 9 Hydref, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Emyr Williams, y Gaerwen

**S4C**

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**

**Sul, 9 Hydref am 7.30yp**

Bydd Nia yn Amlwch yn darganfod stori'r cerddor ysbrydoledig W. Matthews Williams

## Sylw o'r Seidin

### DISGWYLIADAU

Dyna chi fis rhyfedd i lawer o weinidogion yr Efenngyl oedd mis Awst. Mis o wyliau i fod, fel petai pob gofalaeth yn disgwyl i chi gymryd eich gwyliau i gyd mewn un mis er mwyn hwyluso trefniadau'r llyfrau bach weddill y flwyddyn. Ond roedd yna fwy iddi na hynny hefyd, onid oedd? Pe bai'r fath beth â phrofedigaeth yn digwydd yn eich gofalaeth yn ystod eich 'gwyliau', yna byddai yna ddisgwyl i chi ddychweyd adre i ddelio â hynny.

Syndod i mi oedd gweld pa mor barod i wneud hynny yr oedd rhai o'r gweinidogion, a chlywed ganddynt iddynt deithio yn ôl o'r Alban neu Iwerddon bell, a hyd yn oed o gyfandir Ewrop i wasanaethu.

Mae'n rhaid bod eu teuluoedd yn saint go iawn i ganiatáu'r fath beth, ond fydda fo ddim wedi digwydd ar ein haelwyd ni, beth bynnag. FASE FIW IMI WNEUD HYNNY!

Roedd gwyliau yn sanctaidd, yn bennaf felly gan nad oedd y bechgyn yn gweld rhyw lawer o'u tad yn ystod misoedd eraill y flwyddyn. Erbyn hyn, rwy'n hynod ymwybodol o'r hyn a gollais drwy fod yn 'gydwybodol', ac rwy'n gwneud pob ymdrech bosib i wneud i fyny am yr amser hwnnw drwy ymddiddori a chynorthwyo gyda threfniadau gwarchod fy wyrion bach.

Diolch am gymar oedd yn gyfan gwbl gefnogol ac yn Gristion i'r carn, gan y byddai bod yn Was yr Arglwydd dan amodau gwahanol yn anodd, os nad yn amhosibl.

Yn ystod cyfnod olaf fy ngweinidogaeth bu llawer o drafod am fwriad Eglwys Bresbyteriaidd Cymru i gynnig Cytundeb Cyflogaeth neu Femorandwm o Ddealltwriaeth i'r rhai a ordeiniwyd yn weinidogion yr Efenngyl. Ceisiwyd gwneud hyn mewn cyfnod lle roedd yna newidiadau yn y Ddeddf Cyflogaeth fyddai o bosib yn effeithio ar holl staff y Cytundeb. Er fy mod, fel fy nhad gynt, yn undebwr pybyr, yn aelod o garfan y Trydydd Sector o undeb Unite, roeddwn yn gwerthfawrogi ymdrech y Cytundeb i fod yn deg ac yn gytbwys ac yn gyfrifol gyda'u Dyletswydd Gofal (Duty of Care) tuag atom.

Tua'r un pryd, fe ymddangosodd dwy erthygl yn y *Baptist Times* ynglŷn â baich gwaith gweinidogion yr Efenngyl, a'u hymdrech i gyflawni'r cyfan a ddisgwylid ganddynt gan eraill. Wrth drafod ei weinidogaeth, gosododd y Parchedig **Richard Hardy** ei stondin allan o dan ddau bennawd: 'Things your pastor would like to tell



you about expectations' ac yna, 'Things your Pastor would like to tell you about burnout!'

Yn y cyntaf mae'n sôn am achos lle methodd gadw ei air a chyflawni rhywbeth yr oedd wedi ei addo. Er iddo ymddiheuro'n llaes i'r aelod, nid oedd maddeuant i'w gael am fod yr aelod hwnnw yn credu ei bod yn 'special case', chwedl hithau. Yna, mewn seiat arbennig gofynnodd i'r aelodau restru'r holl bethau yr oeddynt yn disgwyl i'w gweinidog eu cyflawni yng nghorff yr wythnos, a rhoi amserlin penodol i bob tasg. Roedd un person yn disgwyl i'w gweinidog dreulio 203 o oriau wrth ei ddyletswyddau – gofyniad amhosib yn wir, o gofio mai dim ond 168 o oriau sydd mewn wythnos!

Y perygl i weinidogion yw credu ein bod ni'n 'God's gift' i'n gofalaethau. Ond mae hynny'n bell iawn o fod yn wir. Fel y dywedodd y Parchedig Richard Wright, 'There is room for only one messiah and ministers need to acknowledge that that role has already been filled.' Ac wrth drafod *burnout* mae'n disgrifio'r rheiny ohonom a lithrodd i'r fagl o gredu ein bod yn anhepgor i'r deyrnas. Y gwir yw nad oes yr un eglwys yn ein gofal yn mynd i dyfu oherwydd bod y bugail yn llosgi'r gannwyll o'r ddeupen. Meddai, 'By just doing things I could reasonably do, I could work smarter, instead of harder ... and still have time to rest and play and be with my family!'

Gair i gall, felly, i chi sy'n parhau i fwynhau'r fraint o fod dan ofal Bugail. Rydan ni'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gael gwasanaeth gweinidog newydd yma yn yr ofalaeth gyda hyn. Efallai y gwna i anfon yr erthyglau iddo fel cyngor amserol gan un a fu bron â llithro oddi ar y cledrau sawl tro.

Daliwch i gredu, a wela i chi'r mis nesa'.

Jim Clarke



### Newydd da i bawb (y Gideoniaid, gynt)

Go brin fod yna lawer o ddarllenwyr *Cenn@d* sydd heb glywed am y Gideoniaid, mudiad oedd yn gosod Beiblau a thestamentau mewn ysbytai, ysgolion, cartrefi gofal, gwestai a manau tebyg. Ers yn gymharol ddiweddar mae'r gwaith yn parhau yn enw Good News for Everyone (Newydd da i bawb). Nid oes llawer o wahaniaeth yn y gwaith, er bod y deunydd yn cael ei ddiweddarau i gyfarfod ag oes wahanol.


Mae croeso i wŷr a gwragedd ddod yn aelodau llawn o'r mudiad – mae gwir angen gweithwyr ychwanegol arnom. Beth am ystyried ymuno? Nid yw'n waith beichus iawn. Gobeithiwn ymweld â disgyblion blwyddyn gyntaf yr ysgolion uwchradd yn ystod y tymor newydd hwn. 'Oni heuir, ni fedir' – a rhaid yw dal i hau, neu does dim gobaith cael cynhaeaf: yr efenngyl yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Am ychwaneg o wybodaeth, cysylltwch â Good News for Everyone, Western House, George Street, Lutterworth LE17 4EE. Neu ewch i'r wefan: [www.goodnewsuk.com](http://www.goodnewsuk.com) neu i'r dudalen Facebook. Mae canghennau yn holl siroedd Cymru. Neu cysylltwch â mi: Trebor Roberts (Cadeirydd Clwyd), Llys Euryn, Llansannan LL16 5HE; 01745 870221; ebost: [tagacre@gmail.com](mailto:tagacre@gmail.com).



## Adolygiad

John Aaron, *Thomas Charles of Bala* (Edinburgh, 2022), clawr caled, 182tt; £15. ISBN 978 1 80040 095 5



Roedd hi'n hen bryd cael cofiant i Thomas Charles o'r Bala gan fod cyfrolau D. E. Jenkins, a gyhoeddwyd yn 1908, yn rhy hir. Cyfaddefa John Aaron mai yno y cafodd y rhan fwyaf o'i wybodaeth, ond bu hefyd yn chwilota ymysg llythyrau cyfoeswyr i'r cawr o'r Bala.

Oddarllenygyfrol hyfryd hon, sylweddolir bod gennym ddyled anfesuradwy i Thomas Charles (1755–1814), arweinydd pwerus a galluog yr ail genhedlaeth o Fethodistiaid Calfinaidd. Gwnaeth gyfraniad i addysg yng Nghymru drwy ei ysgolion cylchynol, ac yn arbennig yr ysgolion Sul. Aeth ati i hyfforddi pobl oedd yn awyddus i fod yn ysgolfeistri a hynny yng nghartref ei briod, Sally, ac yntau yn y Bala. Chwaraeodd Sally ran amlwg yn ei fywyd ac mae'r darlun a gawn ohoni hi yn y gyfrol hon yn un atyniadol. Hi oedd yn ei gadw drwy elw'r siop.

Nid Charles oedd sylfaenydd yr ysgol Sul; yr hyn a wnaeth ef oedd trefnu cyfundrefn i ofalu, yn wahanol i Robert Raikes, am blant, yn ogystal ag oedolion. Defnyddid y Gymraeg fel cyfrwng dysg, a gellid llwyddo i gael plentyn i ddarllen

y Beibl yn y Gymraeg mewn llai na chwe mis. Cafodd gwerin Cymru gynhaliath ysbrydol ac ieithyddol ac addysgol, ac y mae bron pawb a anwyd rhwng 1820 ac 1960 ac a gyfrannodd yn greadigol at fywyd cymdeithas Gymraeg yn gynnyrch yr ysgolion Sul.

Mae'r rhestr yn syfrdanol. Chwaraeodd Thomas Charles ran amlwg yng ngenedigaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Cymdeithas y Beiblau ac esboniadaeth Feiblaidd. Cofir hefyd am arwres y werin bobl, Mary Jones (1784–1864) o ardal Llanfihangel-y-Pennant a Bryn-crug. Mae hi bellach yn adnabyddus ar hyd a lled y byd, a chyhoeddwyd ei hanes mewn o leiaf ddeugain o ieithoedd.

Hyfryd yw cael lluniau da yn y gyfrol – o'r Bala, Plas-yn-dre, a llawer mangre a chymeriadau a fu'n cydweithio â Thomas Charles ac a ddylanwadodd arno. Dylai'r gyfrol hon gael croeso da ym Mhrydain ac America gan fod gwasg Banner of Truth yn gweithredu'n fyd-eang.

*D. Ben Rees*

## Ynni a chapeli - diweddariad

Bythefnos yn ôl cafwyd erthygl gan Aled Davies yn [Cenn@d](#) yn trafod heriau costau ynni i gapeli ac eglwysi, a'r rhai o'r cyfleoedd cenhadol yn deillio o hynny. Dyma ddiweddariad o'r datblygiadau a ddaeth i law ers hynny; mae'n newyddion calonogol i eglwysi, er mai dim ond sicrwydd o gymorth am chwe mis a dderbyniwyd hyd yma.

Ar 21 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Gynllun Lliniaru Biliau Ynni ar gyfer cwsmeriaid annomestig, sy'n cynnwys capeli ac eglwysi. Ar gyfer y cwsmeriaid hyn, mae'r pris a gefnogir gan y llywodraeth wedi'i osod ar £211 fesul megawat awr (MWA) ar gyfer trydan a £75 fesul MWA am nwy. Bydd y pris yn cael ei gymhwyso'n awtomatig am chwe mis (tan 31 Mawrth 2023), gan ddisodli'r prisiau contract a oedd eisoes wedi'u cyflwyno i lawer o eglwysi a chwsmeriaid eraill.

O fewn tri mis (cyn y Nadolig, felly) bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi adolygiad o'r cynllun, ac yn penderfynu pa gwsmeriaid sy'n parhau'n 'fregus' ac felly angen cymorth pellach. Bydd Cytûn yn cyfrannu tystiolaeth i'r adolygiad hwn o'r angen am gefnogaeth bellach i lawer o eglwysi ac adeiladau sy'n eiddo i eglwysi sy'n darparu gwasanaethau cymunedol hanfodol. I helpu gyda darparu'r dystiolaeth hon, byddai Gethin Rhys yn croesawu enghreifftiau o'r prisiau contract a gynigiwyd i eglwysi cyn cyhoeddi'r Cynllun Lliniaru Biliau Ynni, a sut mae hyn yn cyfateb i incwm yr eglwys. Anfonwch dystiolaeth o'r fath at: [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru).

Byddai'n ddefnyddiol hefyd os gallwch ddisgrifio sut mae'r eglwys a'r gymuned ehangach yn defnyddio'r adeilad(au). Mae Cytûn, gyda chyd-weithwyr o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, yn cyflwyno'r achos i Lywodraeth Cymru hefyd o'r angen am gymorth ar gyfer y gwasanaethau cymunedol hanfodol sy'n cael eu cynnal yn adeiladau'r eglwysi.



**Gorwelion Newydd:**  
Cynhadledd flynyddol 2022

Canolfan y Morlan, Aberystwyth  
10.30yb - 3.30yp, Sadwrn, 22 Hydref 2022

**Cyfle i gyfrannu at gyfeiriad a datblygiad C21 i'r dyfodol.**

Byddwn yn trafod dwy o'n themâu gweithredol cyfredol:

- Capeli a chartrefi
- Cydweithio mewn cenhadaeth

**Cyfranwyr:**  
Dafydd Iwan, John Roberts, Pryderi Llwyd Jones,  
Cris Tomos, Luned Voyle, Gareth Ioan a mwy.

Pris, gan gynnwys coffi a chinio - £25 i'w dalu ar y dydd.

Cofrestrwch drwy anfon e-bost at:  
[cristnogaeth21@gmail.com](mailto:cristnogaeth21@gmail.com) cyn ddydd Llun, 17 Hydref.

Cyfarfod blynyddol C21 i'w gynnal am 3.00yp.



## Gweinidogaeth genhadol yn Nolgellau

'Dyma waith ein bywyd nawr,' myfyria Danni wrth i ni eistedd mewn caffi oddi ar y sgwâr canolog yn Nolgellau. Roedd Danni, sy'n weinidog Bedyddiedig, ei gŵr a dau blentyn oed cynradd wedi symud i'r dref yn gynharach yn yr haf, ac roedd y plant yn agosáu at ddiwedd eu hwythnos gyntaf yn Ysgol Bro Idris. Does dim eglwys Fedyddiedig yn Nolgellau ar hyn o bryd, ers i gapel Jwda gau dair blynedd yn ôl. 'Ond rwy'n credu bod Duw yn ymrwymedig i'r lle hwn a'i bobl, a dyna yw ein galwad ni hefyd,' ychwanega Danni.

Mae perthynas Danni a'i gŵr â Dolgellau wedi ei phlethu'n rhyfedd â'u cerddediad gydag Iesu. Daeth y ddau'n Gristnogion fel oedolion; yn arferion 'Yr Oes Newydd' yr oedd cefndir Danni.

'Roeddwn i wedi bod yn annibynnol, mor hunangynhaliol fel person,' meddai, 'ac yna fe gawson ni argyfwng dramatig fel teulu, ac fe ymyrrodd Duw mewn gwirionedd mewn ffordd wyrthiol. Yn fuan ar ôl hynny des i i adnabod Iesu, ac roedd cwpl Cristnogol yr oeddwn wedi dechrau dod i'w nabad wedi cynnig gwyliau i ni fel teulu yn eu bwthyn yn Nolgellau. Roedd e wir yn rhodd mor hael, ac fe gyfrannodd i'n hadferiad ni fel teulu – eu caredigrwydd, yr amser i ffwrdd, a phrydferthwch y lle ei hun wrth gwrs. A dyma ni'n dod yn ôl dro ar ôl tro – heb sylweddoli ar y dechrau y byddai Duw wedyn yn ein galw ni i symud a gweinidogaethu yma!'

Fel nifer o bobl yn y weinidogaeth lawn amser, roedd Danni'n amharod i ddechrau pan glywodd yr alwad i fod yn weinidog. Ond wrth iddi ddechrau ar ei hyfforddiant a gwasanaethu fel myfyriwr gweinidogaethol yn nwyrain Lloegr lle roeddent yn byw, sylweddolodd yn raddol nad gweinidogaethu yno oedd bwriad Duw iddi. Roedden nhw'n dal i ddod yn ôl tua'r gorllewin i Gymru ac i Ddolgellau, ac mae Danni'n cofio'n glir sut y byddai ei gŵr – nad oedd eto'n grediniwr – yn ebychu wrth iddyn nhw yrru dros y bwlch i Wynedd: 'Os mai Duw wnaeth greu hyn, mae e'n berson cwbl frawychus a hefyd cwbl gyffrous!' Pan ddaeth i ffydd ei hun ac yn dilyn proses hir o ddirnadaeth gydag Undeb Bedyddwyr Cymru ynghyd â chyfle annisgwyl i brynu tŷ yn y dref, gwelsant sut roedd y darnau'n disgyn i'w lle.

Meddai Hazel Williams-Jones, Arolygwr Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion: 'Mae'r Gymanfa yn falch bod y dystiolaeth Fedyddiedig a fu yn y dref yn mynd i barhau ar ei newydd wedd.' Ychwanegodd Cath Williams, Cadeirydd y Gymanfa, 'Rydym i gyd yng Nghymanfa Dinbych, Fflint a Meirion yn anfon ein dymuniadau gorau at y teulu ar gychwyn taith newydd a chyffrous yn ei hanes. Mae drysau nifer o eglwysi wedi cau yn ddiweddar a hynny yn ein gwneud yn drist, ond gyda'r fenter hon mae cil drws newydd yn agor a chyfleoedd newydd yn dod yn sgil hynny, fe obeithiwn.'



Er bod ganddi bedair blynedd o brofiad bellach fel weinidog eglwys o dan hyfforddiant yn Swydd Gaergrawnt a Swydd Bedford, mae Danni yn esbonio nad yw hi'n edrych i blannu cynulleidfa eglwys yn y dref ar frys. 'Dwi'n weinidog gyda'r Bedyddwyr, a dwi'n hapus iawn i ddweud hynny wrth bobl. Ond, am y tro, mae hynny'n golygu gweinidogaeth lletygarwch: rhoi a derbyn, gwasanaethu pobl yn y dre wrth i mi ddod i'w hadnabod a gwrandao arnynt. Byddaf yn gweddio drostyn nhw – a phan fydd pobl eisiau gwybod, byddaf yn dweud wrthyn nhw am Iesu.'

Fel cymuned Gymraeg yn bennaf, beth mae hynny hefyd yn ei olygu i Danni a'r teulu cyfan yw'r angen i ddysgu'r iaith yn rhugl, a dod i adnabod y diwylliant hwn sydd mewn gwirionedd yn newydd iddynt.

'Mae'n gymaint o fraint,' meddai Danni â'i llygaid yn disgleirio, 'a chredaf y daw'r amser pan fydd i'r dref hon unwaith eto enw da am ei bywyd ysbrydol yng Nghrist!'

### Taru'r Post

Annwyl Olygydd,

Dwi'n hoff iawn o sylw'r Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Cymru, mewn ysgrif yng nghyfrrol ddiweddaraf Dr Prydwen Elfed-Owens, *Malwan bach fel fi ... yn cloddio am aur*. Dywed Judith Morris 'ein bod yn byw mewn cyfnod sydd yn newid, sef cyfnod trothwyol. Hynny yw, nid yw'r hen batrwm wedi llwyr ddiflannu, ond ar yr un pryd nid yw patrymau y dyfodol yn hollol glir ychwaith! Mae fel pe baem yn bodoli mewn dau dymor a dau gyfnod.'

O ystyried y lleihad cyson yn niferoedd aelodau, addolwyr, ysgolion Sul a gweithgareddau cymdeithasol eglwysi, mae'n debygol iawn y bydd yr hen batrwm yn diflannu'n raddol yn y blynyddoedd nesaf. Wrth gwrs, does neb yn gwybod hynny'n well nag addolwyr sy'n cynnal yr hen batrwm.

Ymhlith y 62 o ysgrifau yn llyfr Prydwen, mae sôn am rai eglwysi arloesol sydd eisoes wedi datblygu patrymau i'r dyfodol. Ynddo hefyd ceir nifer o enghreifftiau o weithgarwch eglwysig newydd a gwahanol ar waith mewn sawl eglwys.

Yn gywir,  
Eifion Wynne (Rhuthun)



## ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 2 Gras a Ffyddlondeb Darlleniad – Galatiaid 3:1–9

Yr wythnos diwethaf nodais nad hanes i ganmol Abraham sydd yn y Beibl, ond hanes i ganmol Duw Abraham. Y tro hwn, gan barhau i gael math o gyflwyniad i hanes ac arwyddocâd Abraham cyn mynd at y testun, yr wyf am nodi sut mae gras ar waith yn ei fywyd, ac effaith hynny arno ef yn bersonol.

Un o'r themâu sy'n cael eu hailadrodd drwy hanes Abraham yw fod perthynas Duw â'r dyn yma'n seiliedig ar ras. Yn wir, yn yr adran hon yr wythnos diwethaf, nodais fod ei alwad yn Genesis 12:1 yn atgoffa darllenwyr yr hanes fod Duw wedi bod ar waith yn ei fywyd ymhell cyn i Abraham gyflawni dim o ran gwasanaethu Duw. Mae'r ymadrodd 'Ac wedi dweud yr Arglwydd wrth Abram' (12:1) yn dangos fod Duw wedi ei alw yn ddyn gweddol ifanc, cyn iddo adael Haran, cyn concro unrhyw elynion, cyn iddo ymrwymo i unrhyw ffyddlondeb i gyfamod Duw, cyn iddo weddio dros y cyfiawn yn Sodom a Gomora, a chyn llwyddo mewn unrhyw brawf o'i ffydd. I'r gwrthwyneb, mae'n amlwg fod galwad Abraham yn alwad gan y Duw sy'n ein neilltuo cyn inni arddangos unrhyw fath o ymateb iddo. Mae Paul yn ein dysgu am y Duw sy'n ein galw pan oeddem 'yn feirw yn ein camweddu' (Effesiaid 2:1, 4–5). Ac mae'r gras hwn yn hanfodol wedi ein galwad, oherwydd nid yn unig mae'n ras sy'n rhoi bywyd newydd, ond yn cynnal y bywyd, yn dwyn trugaredd Duw i'n bywyd yn feunyddiol. Gan ein bod yn bechaduriaid, rhaid adnabod y tosturi grasol yma. Mae Genesis 15:6 yn dweud am Abraham, 'Credodd Abram yn yr ARGLWYDD, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo.'

Yn Rhufeiniaid 4:3–5 a Galatiaid 3:6 mae Paul yn pwysleisio mai gweithred o drugaredd yw cyhoeddi Abraham yn gyfiawn, nid tâl am weithredoedd da. Sylwch ar ddadl Paul yn yr adnodau yn y llythyr at y Rhufeiniaid: 'Oherwydd beth y mae'r Ysgrythur yn ei ddweud? "Credodd Abraham yn Nuw, ac fe'i cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Pan fydd rhywun yn gweithio, nid fel rhodd y cyfrifir y tâl, ond fel peth sy'n ddyledus. Pan na fydd rhywun yn gweithio, ond yn rhoi ei ffydd yn yr hwn sy'n cyfiawnhau'r annuwiol, cyfrifir ei ffydd i un felly yn gyfiawnder.' I Abraham, i'r Israeliaid oedd yn darllen yr hanesion hyn, ac i ninnau, nid yn unig mae'n rhaid inni gael ein hatgoffa o'r haelioni bendigedig yma sydd yn Nuw, ond rhaid inni gael ein hannog gan y gwirionedd bendigedig fod ymwneud Duw â ni yn ddiogel yn Iesu. Ni fydd raid ceisio cyfiawnder gyda Duw ar sail ein gweithredoedd, ond ar sail ein hymddiriedaeth yn y gweithredoedd a gyflawnodd Duw yng Nghrist yn ein lle.

Wedi dweud hyn, yn y Beibl does yna ddim gwahaniaethu rhwng gras a gweithredoedd, gan fod y naill yn arwain at y llall. A mynd yn ôl at Genesis 12, fe welwn fod galwad grasol Duw yn arwain at weithred Abraham o ufudd-dod. Gyda'r galwad trwy ras, mae'r gorchymyn i fynd, a rhaid i Abraham ymateb i'r galwad hwnnw, a byw yn y lle, y wlad yr oedd Duw yn ei alw iddo. Wrth siarad am Abraham, mae awdur y llythyr at yr Hebraeid yn dweud, 'Trwy ffydd yr ufuddhaodd Abraham i'r alwad i fynd allan i'r lle yr oedd i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac fe aeth allan heb wybod i ble'r oedd yn mynd.' (Hebreaid 11:8)

Os oedd yn wir, ac os yw'n wir, fod angen i bobl Dduw gael eu hatgoffa o ras Duw beunydd, rhai iddynt gael eu hatgoffa hefyd o'u cyfrifoldeb i ymateb i alwad, i orchymyn Duw, beunydd. Rhaid i ni fynd i 'fyw i'r wlad newydd' y mae Duw yng Nghrist yn ein galw iddi. Cawsom ein galw i fod yn y byd, ond nid o'r byd yma mwyach, i fyw yn ein gwlad, ond i fod yn ddinasyddion gwlad arall, dinasyddiaeth sy'n ein galw i fod yn bobl wahanol, yn genedl wahanol, gyda gorchymynion a gwerthoedd gwahanol. Trwy hyn, yr ydym yn dwyn goleuni'r wlad honno i mewn i dywyllwch ein byd, ac yn gwneud hynny drwy beidio 'â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawssurfurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef.' (Rhufeiniaid 12:2)

1. Wrth feddwl yn ôl, pa bethau yn eich hanes fydddech yn cyfeirio atynt fel esiamplau o Dduw yn gweithio yn eich bywyd, cyn i chi ddechrau gweithio neu fyw i Dduw?
2. Pa mor bwysig dybiwch chi yw credu fod Duw yn ein galw i berthynas ag Ef er gwaethaf ein gweithredoedd?
3. Meddyliwch am esiamplau yn eich bywyd lle rydych wedi gorfod cefnu ar 'fyw yn eich gwlad eich hun' oherwydd ufudd-dod i orchymyn Duw i 'symud i wlad arall'.

DECHRAU CANU  
DECHRAU CANMOL

Cymanfa'r Dathlu  
Sul 16.10.22

Dewch i ganu mawl gyda chorau'r ardal i ddathlu canmlwyddiant a hanner Y Tabernacl, Treforys ar gyfer rhifyn arbennig o'r gyfres boblogaidd Dechrau Canu, Dechrau Canmol.

Y gynulleidfa i gyrraedd am 2.00pm  
Recordio 2.30 - 4.00pm  
Croeso i bawb

Arweinydd Parchedig Rob Nicholls  
Organydd Huw Tregelles Williams

RONDO S4C

## Ymweliad Bataliwn Dyfnaint â Phen-bre

Dydd Sul, 31 Gorffennaf eleni, croesawyd Bataliwn Dyfnaint 'nôl i Gapel Bethel, Pen-bre, wedi ysbaid gorfodol o dair blynedd.

Sefydlwyd y berthynas rhyngom yn 1987, pan arweiniwyd yr oedfa gyntaf ganddynt yn y capel. Roedd y drefn yn gwbl ddeithr i ni'r pryd hynny, ond yn fuan iawn daeth yn achlysur pwysig yng nghalendr Bethel ac un y disgwylir yn eiddgar amdani gan y gymuned.

Deuai'r Cwmni i wersylla'n flynyddol ym Mharc Gwledig Cefn Sidan ac ar y bore Sul byddai'r Cwmni'n gorymdeithio i'r capel o'r gwersyll yn eu gwisg swyddogol, i gerddoriaeth y band pres. Heidiai'r pentrefwyr i wyllo'r olygfa a llawer yn eu dilyn i'r oedfa.

Ar ddechrau'r gwasanaeth byddai aelodau hŷn y grŵp yn cario'r lliwiau i mewn i'r capel i swm yr emyn cyntaf, 'Will your anchor hold', emyn a ysbyrdolwyd gan Hebreaid, pennod 6, adnod 19: 'Y mae'r gobaith hwn gennym fel angor i'n bywyd, un diogel a chadarn', ac arwyddair y Frigâd, sef 'Sure and steadfast'.

Yn dilyn oedfa gan yr ieuencid, yn ddarlleniadau, gweddiâu, sgets, canu



Parch. Julian Albrow, Mrs Elizabeth Jackson, Mrs Elinor Wyn Nicholson, Parch. Andrew Prout, Mr David Aggett

a neges gan y caplan, byddai'r Cwmni'n ymgynnull tu allan i'r capel, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r dril a martsio 'nôl i'r gwersyll i guriad y band pres.

Er mawr siom a thristwch i ni, cyhoeddwyd mai eleni fydd y flwyddyn olaf i'r Cwmni ddod i wersylla ym Mhen-bre gan fod y gost yn ormodol iddynt i deithio cyn belled.

Cafwyd oedfa fendithiol iawn, serch hynny, gan ddiolch am y blynyddoedd o addoli a'r gwmniaeth. Ar ddiwedd y cyfarfod fe gyflwynwyd i'r capel lestr blodau gwyrdd wedi'i gerfio â logo'r bataliwn.

*Elinor Wyn Nicholson*

## Bwletin Polisi Cytûn

Diolchwn am Fwletin Polisi Cytûn a ddaeth i law ar gyfer Hydref-Tachwedd. Ynddo fe ofynnir y cwestiwn, 'A fyddwn yn gynnes y gaeaf yma?' gan amlinellu'r sefyllfa ar gyfer unigolion a sefydliadau fel eglwysi ac ymateb llawer o eglwysi i'r argyfwng.

Cawn wybod am nifer o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu i gyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb (8-15 Hydref) a lansio 'Hanes Pobl Dduon Cymru' gan Gyngor Hil Cymru yr hydref hwn. Hefyd, ceir gwybodaeth am Gynhadledd Bywyd Tu Hwnt i Ffiniau, fydd yn dwyn ynghyd lawer o'r rhai sydd ynglŷn â darparu ar gyfer ffoaduriaid yn Lerpwl ar 8 Tachwedd.

Adroddir hefyd am hynt hir Brexit a'i effaith ar lywodraeth Senedd Cymru. Wedi i nifer o gynrychiolwyr o Gymru fynychu Cynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd yn Karlsruhe, yr Almaen, yn ddiweddar, fe roddir sylw i alwad y Gynhadledd am heddwch ar gyfandir Ewrop, a hynny yn wyneb thema'r gynhadledd: 'Mae cariad Crist yn arwain y byd at gymod ac at undod'.

Gellir dilyn y ddolen isod at gopi llawn o'r Bwletin ar wefan Cytûn: [www.Cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2022/](http://www.Cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2022/)

## Colli Cenhades

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r ddiweddar Renne Tudor, Birmingham: ei gŵr, Allan, a'u merch, Linda, a theulu'r eglwys ym Methel, Birmingham, lle bu'n flaenores. Cofiw'n iddi fod yn genhades yn Sylhet rhwng 1956 ac 1961, ymhlith y to olaf o genhadon gan EBC yn India a Dwyrain Pacistan fel y'u gelwid bryd hynny. Rhown ddiolch am ei bywyd yn gyfan a gweddiwn am fendith yr Arglwydd ar bawb y bu iddi gyffwrdd â'u bywydau ac sy'n hiraethu amdani.

## 3 Astudiaeth Feiblaidd ar zoom

Nos Lun am 7 o'r gloch:

Hydref 10fed – Pwy yw'r Arglwydd Iesu, yr Alfa a'r Omega?

Tachwedd 14eg – Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd

Rhagfyr 12fed – Gwasanaeth Carolau yn dathlu enwau'r Arglwydd Iesu

Trefnir gan Is-bwyllgor y Chwirodydd Cysylltwch gyda'r swyddfa i gael y linc 01678 520 065/eirian.roberts@ebcpcw.cymru





# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Diolch yn fawr iawn

### Cyflwyniad

'Ni fydd yr hwn nad yw'n diolch pan dderbyniodd ychydig yn ddiolchgar pan fydd yn byw yng nghanol llawnder.' (Dihareb o Estonia)

Ciliodd mawl a diolchgarwch o galon ein cenhedlaeth farus, hunanol, faterol ac ariangar. Pa ddiolch a rown pan fydd yr hysbysebion ar y teledu'n ein hatgoffa'n ddiddiwedd ein bod ar ein colled o fyw heb gar, heb y teclyn diweddaraf, heb y gwyliu delfrydol yr ydym yn eu haeddu?

Ac eto, oni ddylai bywydau Cristnogion gael eu nodweddu gan ddiolchgarwch?

Fel yr atgoffodd yr esgob Serbaidd Nikolai Velimirovic (1881–1956; gŵr a ddiodefodd yn Dachau cyn ei ryddhau o'r gweryll) ei bobl: 'Nid yw Duw yn blino rhoi rhoddion da i ni; felly, sut allwn ni flino diolch iddo am y pethau da a ddaw i'n rhan bob dydd?'

**Darllen: Salm 111**

**Emyn 116: 'Nef a daear, tir a môr'**

### Gweddi

Arglwydd, cyffeswn mewn cywilydd ger dy fron ein bod yn derbyn cymaint o'th law heb roi i ti'r clod sy'n ddyledus i ti. Heddiw, rydym am ddod atat i gyfrif ein bendithion fesul un ac un ac i synnu cymaint a wnaethost drosom. Caniatâ i ninnau'r fraint o archwilio dy roddion fel y medrwn ymhyfrydu ynot ti, drwy Iesu Grist, ein Harglwydd. Dysg ni beth yw'r doethineb sy'n parhau am byth a dysg ni i'th foliannu'n llawen, Amen.

**Darllen: Luc 17:10 – Y Samariad diolchgar!**

### Trwy lygaid Luc

Dim ond Luc sy'n adrodd hanes y wyrth hon. Gwelwn ddiddordeb Luc mewn pobl yn cael ei amlygu ynddi, yn arbennig ei ddiddordeb yn y rhai oedd ar y cyrion, y bobl anghenus hynny oedd yn agored i Iesu a'i alwad arnynt. Gwasgerir y beilchion, cyfodir yr anghenus yn yr efengyl yn ôl Luc.

### Dieithrwch a chymdeithas

Does dim angen llawer o ddychymyg arnom i allu mynd i mewn i ryfeddod y wyrth hon. Gallwn ddychymygu'r deg person gwahanglwyfus oedd, yn unol â'r gyfraith, yn byw ar gyron eu cymdeithas (Numeri 5:2–3) yn galw ar Iesu. Byddai'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r un oedd 'yn heintus i

wisgo dillad wedi eu rhwygo, gadael ei wallt yn rhydd, gorchuddio'i wefus uchaf a gweiddi, "Aflan, aflan!" Y mae'n aflan cyhyd ag y bydd y dolur arno; y mae i fyw ar ei ben ei hun, a hynny y tu allan i'r gweryll.' (Lefiticus 13:45)

Nid oedd tras na hil yn bwysig i fywydau'r gwahanglwyfus oedd yn byw ar ymylon cymdeithas. Yr hyn a'u gwahanodd oddi wrth weddill y gymdeithas oedd sail eu cymdeithas â'i gilydd! Beth bynnag oedd eu statws cyn eu heintio, gwahangleifion aflan oeddynt bellach.

### Trugaredd y meistr

Mewn pentref dinod ar y ffin rhwng Israel a Samaria, daeth Iesu ar eu traws mewn trybini. Er iddynt sefyll gryn bellter oddi wrtho, ni ddilynwyd gweddill y sgrif oedd wedi ei gosod gan y gyfraith ar gyfer y gwahanglwyfus. Yn wir, yn hytrach na rhybuddio Iesu o'u gwahanglwyf, dechreusant godi eu lleisiau a galw arno: 'Iesu, feistr, trugarha wrthym'.

Dyma'r unig dro i rywrai nad oeddynt ymhlith cwmni ei ddisgyblion alw Iesu wrth y teitl 'meistr'. Cydnabuwyd ganddynt fod ganddo awdurdod neilltuol, hyd yn oed dros yr haint fyddai'n eu difa. Ac nid ei rybuddio i gadw draw a wnaethant ond yn hytrach ei alw i ymyrryd â'u bywydau. Heb hawl yn y byd ger ei fron, heb fodd i'w ad-dalu am ei ymyrraeth, heb ddim i'w gynnig iddo, galwasant: 'Iesu, feistr, trugarha wrthym'. Ac yn yr alwad – Meistr – mynegwyd eu hawydd i gael eu cyfrif ymhlith ei ddilynwyr.

### Glanhad

Cymaint oedd ei awdurdod fel y meistr fel bod ei orchymyn iddynt 'ddangos eich hunain i'r offeiriad' yn ddigon. Yr offeiriad oedd yr un a dystiai eu bod bellach yn lân (Lefiticus 13:3, 10, 13) ac ef hefyd fyddai'n sicrhau eu bod yn cadw'r defodau priodol (Lefiticus 14).

Ffydd yw credu gair Duw! Rywbryd yn ystod eu taith, daethant i gyd yn ymwybodol fod yr aflwydd oedd arnynt wedi eu gadael, a chwblhawyd eu taith at yr offeiriad mewn rhyfeddod a gofoledd.

### Dychwelyd a diolch

Un yn unig a ddychwelodd i ddiolch i Iesu, a Samariad oedd hwnnw.

Tybed a gofiodd y naw arall, yn ystod eu taith at yr offeiriad, nad oedd y Samariad hwn a rannodd yn eu trybini mewn gwirionedd yn un ohony'n nhw? Pa hawl oedd ganddo fel Samariad i fynd yn eu cwmni at offeiriad Duw Israel?

Na, ni ddychwelodd y naw arall a iachawyd gan Iesu! Efallai fod rhai o'r cwmni wedi barnu y dylent gwblhau'r defodau a osodwyd. Onid oedd hynny'n ddiolchgarwch i Dduw hefyd? Tybed a oedd eraill, yng nghyffro eu llawenydd, wedi rhyfeddu cymaint at yr adferiad a'r profiad o gael eu hiacháu fel eu bod wedi methu cofio pwy gyflawnodd y wyrth ryfeddol hon yn eu bywydau. Nid oes iachawdwriaeth gyflawn heb yr iachawdwr! Efallai fod rhai mor gyffrous am eu hiachâd fel eu bod wedi rhuthro adre i weld eu teuluoedd, eu plant a'u cyfeillion. Am ba reswm bynnag, dim ond un a ddychwelodd i ddiolch i Iesu.

### Diolch y Samariad

Ni ddychwelodd y Samariad at Iesu dan gochl: 'Dychwelodd gan ogoneddu Duw â llais uchel.' Plannwyd yr haleliwia yn ei enaid a mynnodd roi ei fawrhad i Iesu. Diau fod rhai o'r bobl a'i clywsant yn ystyried bod ei ymateb yn eithafol, ei ddiolchgarwch yn ormodol. Rhai na chawsant eu hiacháu oedd y rheiny, pobl nad oedd erioed wedi galw: 'Iesu, feistr, trugarha.'

Wrth syrthio ar ei wyneb o flaen Iesu daeth enw'r meistr, Iesu, i olygu rhywbeth newydd iddo. Ymostyngodd o flaen Iesu a derbyniodd Iesu ei fawl. Plygodd y Samariad fel gwrthryfelwr oedd wedi ei goncro mewn rhyfel, fel brenin yn ildio'i goron i'w feistr.

Yn ei ymostyngiad, dim ond y Samariad hwn a addolodd Iesu a gogoneddu Duw. Yn yr eiliad honno fe ganfu'r Samariad fod yr hwn a glywodd ei gri am drugaredd, ac a'i cododd o'i drueni, yn parhau i'w dderbyn, ac yn deilwng o'r mawl oedd yn ddyledus iddo. Trodd y gwellhad yn iachâd!

### Gweddi

Arglwydd Dduw, dysg ninnau mai ymostwng yn llwyr i'th arglwyddiaeth rasol yn Iesu Grist yw'r iachâd a'r rhyddid pennaf sy'n bosib. Drwy dy Ysbryd Glân, dysg ni beth mae'n ei olygu i ofni ac anrhydeddu'r Arglwydd. Amen.

**Emyn 791: 'Tydi a wnaeth y wyrth'**

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)